**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Adroddiad Blynyddol 2013-14

Awst 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8041
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Adroddiad Blynyddol 2013-14

Awst 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**William Graham**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Mohammed Asghar (Oscar)**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Gwyn R Price**
Llafur Cymru
Islwyn



**Linday Whittle**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Leanne Wood**
Plaid Cymru
Canol De Cymru

## Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**1. Cyflwyniad** ........ **7**

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ........ 7

**2. Gwaith y Pwyllgor 2013-14** ........ **9**

Crynodeb ........ 9

Rheoli Grantiau yng Nghymru ........ 9

Cefndir ........ 9

Canfyddiadau Allweddol ........ 10

Prif Ganlyniadau ........ 10

Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen ........ 11

Cefndir ........ 11

Canfyddiadau Allweddol ........ 12

Prif Ganlyniadau ........ 13

Argyfyngau Sifil yng Nghymru ........ 13

Cefndir ........ 13

Canfyddiadau Allweddol ........ 14

Prif Ganlyniadau ........ 14

Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd ........ 15

Cefndir ........ 15

Canfyddiadau Allweddol ........ 16

Prif Ganlyniadau ........ 17

Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori ........ 17

Cefndir ........ 17

Canfyddiadau Allweddol ........ 17

Prif Ganlyniadau ........ 18

Bwrdd Draenio Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg ........ 19

Cefndir ........ 19

Canfyddiadau Allweddol ........ 19
Prif Ganlyniadau ........ 20
Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG ........ 21
Cefndir ........ 21
Canfyddiadau Allweddol ........ 21
Prif Ganlyniadau ........ 22
Trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ........ 23
Cefndir ........ 23
Canfyddiadau Allweddol ........ 24
Canlyniadau ........ 25
Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt ........ 26
Cefndir ........ 26
Canfyddiadau Allweddol ........ 27
Prif Ganlyniadau ........ 28
Edrych Ymlaen ........ 29
**Atodiad** ........ **31**

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Er nad yw gwaith unrhyw Bwyllgor yn cyfateb yn union i flwyddyn ariannol neu dymor Cynulliad penodol, yn enwedig y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg da ar hyd a lled y pynciau a'r amrywiaeth o faterion y mae'r Pwyllgor wedi eu hystyried dros y 12 mis sy'n destun yr adroddiad hwn.

Fel Pwyllgor, rydym yn ceisio sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ystyried sut mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwariant a ph'un a sicrhawyd gwerth am arian. Rydym hefyd yn ystyried gwariant gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, nodi unrhyw broblemau ac ystyried sut y gellir goresgyn y rhain fel y gall eraill ddysgu ganddynt.

O ystyried mai iechyd sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o wariant datganoledig yng Nghymru a'i fod o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd, mae'n naturiol i nifer o ymchwiliadau'r Pwyllgor eleni ystyried gwahanol agweddau ar GIG Cymru. Edrychwyd hefyd ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli grantiau, ei defnydd o ymgynghorwyr, a rhai materion penodol iawn ynglŷn â llywodraethu mewn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus a fu'n enghreifftiau o wneud penderfyniadau a arweiniodd at ddefnydd aneffeithlon o arian cyhoeddus.

Yn ystod ein hymchwiliadau rydym yn aml yn gallu nodi arfer da, ond nid yw bob amser yn cael ei ddefnyddio'n eang na'i gymhwyso'n gyson. Mae'r pwyllgor yn dychwelyd at faterion a ystyriwyd eisoes yn rheolaidd er mwyn monitro effaith ein hargymhellion a sicrhau eu bod wedi cael eu rhoi ar waith. Wrth baratoi'r adroddiad hwn cawsom ein calonogi gan nifer y meysydd lle y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol o ganlyniad uniongyrchol i waith y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn gweithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a hoffwn ddiolch iddynt hwy a Chlercod y Pwyllgor am eu diwydrwydd wrth ymgymryd â'u rôl bwysig ac am y ffordd broffesiynol a chydweithredol y maent wedi gweithio gyda'r Pwyllgor.

Eleni, mae'r Pwyllgor wedi ceisio gwella ei arferion gwaith ei hun ac wedi rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd. Mae'r adroddiad hwn yn enghraifft o hynny, ynghyd â'r ddau ymchwiliad y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad hwn ac a ddechreuwyd gan y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael cymaint o effaith â phosibl o ran sicrhau bod sefydliadau a swyddogion a ariennir gan drethdalwyr yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd o ran gwerth am arian, llywodraethu da ac effeithlonrwydd. Byddwn yn parhau i weithio tuag at y nod hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac wrth i ni symud i dymor nesaf y Cynulliad.

# 1. Cyflwyniad

1. Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor). Cytunodd y Pwyllgor i baratoi adroddiad blynyddol i'w gyflwyno ar gyfer dadl gerbron y Cynulliad cyfan fel rhan o'i ffyrdd newydd o weithio ar ddechrau'r flwyddyn. Bwriedir i'r adroddiad hwn godi proffil gwaith y Pwyllgor a helpu i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei hymatebion i argymhellion y Pwyllgor ymhellach.

2. At hynny, gan edrych ymlaen at broses cyllideb 2014-15, rydym yn ymwybodol efallai y bydd yn fuddiol i'r Cynulliad Cenedlaethol gael gwybodaeth am yr hyn a gyflawnwyd yn hanesyddol drwy'r adnoddau a ddyrannwyd.

3. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau'r Pwyllgor rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014 ac yn tynnu sylw at nifer o faterion sy'n deillio o waith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn. Ein gobaith yw y caiff y materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn gyfrannu at y broses o graffu ar y gyllideb ddrafft a llywio blaenraglenni gwaith Pwyllgorau eraill y Cynulliad.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

4. Mae'r Pwyllgor yn un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys wyth Aelod o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru.

5. Rôl y Pwyllgor yw sicrhau y creffir ar wariant Llywodraeth Cymru mewn modd priodol a thrylwyr. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Mae'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y defnyddiwyd adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

6. Rydym yn cael cyngor a briffiau gan yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, rydym hefyd yn annibynnol ar y swyddfa honno, ac mae gennym ein tîm ein hunain o swyddogion i'n cynorthwyo yn ein gwaith.

7. Wrth gynnal ymchwiliadau mae'r Pwyllgor yn ystyried gwerth am arian, gonestrwydd a threfniadau llywodraethu. Nod y Pwyllgor yw sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol ac yn effeithlon. Rydym hefyd yn anelu at dynnu sylw at faterion perthnasol, ysgogi newid a hyrwyddo gwelliant yn y ffordd y darperir gwasanaethau ac y defnyddir arian cyhoeddus.

8. Gall y Pwyllgor hefyd gytuno i gynnal ei ymchwiliadau ei hun os yw'n credu y byddai'n werth gwneud hynny a'i fod er budd y cyhoedd ac, yn y dyfodol, dyna'r maes gwaith rydym yn awyddus i'w ddatblygu. Trafodir y maes gwaith hwn ymhellach ym mharagraff 10 o'r adroddiad hwn.

## 2. Gwaith y Pwyllgor 2013-14

### *Crynodeb*

9. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus naw ymchwiliad mawr rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Ystyriodd y Pwyllgor amrywiaeth o faterion o Reoli Grantiau i Gyllid Iechyd. Ystyriwyd trefniadau llywodraethu nifer o sefydliadau hefyd. Ystyrir prif themâu a chanfyddiadau'r ymchwiliadau hyn ymhellach yn y bennod hon.

10. Yn ystod y cyfnod hwn adolygodd y Pwyllgor y ffordd roeddem yn gweithio hefyd a chytunwyd ar nifer o gynigion i newid ein ffyrdd o weithio. Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol fu'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor. Mae'r rhain yn ymchwiliadau a ysgogwyd gan bryderon Aelodau'r Pwyllgor ynglŷn ag agweddau ar bolisïau allweddol y Llywodraeth sy'n ymwneud â gwerth am arian. Yn 2013-14, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar ddau ymchwiliad a arweiniwyd ganddo: cyflog uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus a'r Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru rhwng Caerdydd ac Ynys Môn. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ar ganfyddiadau'r Ymchwiliadau hyn yn ddiweddarach yn 2014.

### Rheoli Grantiau yng Nghymru

### *Cefndir*

11. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad *Rheoli Grantiau yng Nghymru* ar 29 Tachwedd 2011. Yn yr adroddiad, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod costau gweinyddu grantiau yng Nghymru yn gymharol uchel a bod llawer o grantiau yn cael eu rheoli'n wael gyda'r cyllidwyr a'r rhai a oedd wedi derbyn grantiau yn methu â dysgu o gamgymeriadau yn y gorffennol. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad hefyd dystiolaeth glir bod rhai cyllidwyr yn awyddus i wella.

12. Yn sgil canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol cynnal ymchwiliad i'r materion.

13. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad interim ar *Rheoli Grantiau yng Nghymru* ym mis Awst 2012, yn nodi ein hystyriaeth o'r materion hyn. Cyhoeddwyd adroddiad interim yn hytrach nag adroddiad terfynol, am ein bod yn rhagweld y byddem yn cymryd rhagor o dystiolaeth ar y pwnc hwn yng ngoleuni adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o

gydberthynas Llywodraeth Cymru ag AWEMA, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan

14. Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad, croesawyd ein canfyddiadau gan Lywodraeth Cymru a chyhoeddodd ymateb i'n hargymhellion.

15. Ystyriodd ein hadroddiad terfynol ym mis Mehefin 2013 ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion gwreiddiol ynghyd â'r dystiolaeth gan y Gronfa Loteri Fawr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon, Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ynglŷn â materion cyffredinol a oedd yn ymwneud â rheoli grantiau.

### *Canfyddiadau Allweddol*

16. Nododd adroddiad y Pwyllgor pa mor bwysig ydoedd bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar y cyd wrth reoli grantiau ac yn gweithio'n gydlynol er mwyn sicrhau y cânt eu rheoli mewn ffordd gyson ac effeithlon.

17. Gwnaeth ein hadroddiad 18 o argymhellion gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar grantiau yn nodi sut y cafodd grantiau unigol eu hadolygu yn ei Hadolygiad o Reoli Grantiau, pa opsiynau ariannol amgen a ystyriwyd, a pha sail resymegol a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr opsiynau ariannu mwyaf effeithiol ym mhob achos;
- bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno system TG ganolog i reoli grantiau, ac ar gyfer rhoi system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith;
- bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull o ddwysáu ei threfniadau monitro, mewn ymateb i bryderon penodol yn ymwneud ag afreolaidd-dra ariannol neu faterion llywodraethu, a hynny'n cynnwys pan roddir 'mantais yr amheuaeth' i sefydliad.

### *Prif Ganlyniadau*

18. Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn dyfarnu nifer fawr o grantiau heb ddealltwriaeth ar draws y weinyddiaeth o bwy oedd wedi cael grant a diben pob grant. Roedd risg y gallai hyn olygu bod sefydliadau yn cael nifer o grantiau gwahanol gan Lywodraeth Cymru ac y gallai diben grant o bosibl danseilio diben grantiau eraill a roddwyd. Canfuwyd hefyd fod y ffordd wasgaredig o weinyddu

grantiau yn aneffeithlon, a bod modd gwneud arbedion o bosibl pe bai gweithrediadau ar y cyd. Mae'r rhain yn feysydd y bydd y Pwyllgor yn parhau i ymddiddori ynddynt.

19. Fodd bynnag, roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor yn gadarnhaol a gwnaethom groesawu'r ffaith iddi dderbyn pob un o'r 18 o argymhellion yn ein hadroddiad.

20. Yn ei hymateb diolchodd Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor am ei amser a'i ymdrech yn ystod ein hymchwiliadau manwl i'r ffordd y caiff grantiau eu rheoli gan nodi ei bod yn gwerthfawrogi'r ffaith y byddem yn parhau i ymddiddori yn y pwnc hwn.

21. Mewn cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ymateb Llywodraeth Cymru ailddatganwyd hyn:

> "It is clear that the Committee's sustained focus on this topic has served to raise awareness of the importance of good grants management within senior levels of the Welsh Government, and that officials are making progress on a wide range of actions to deliver some significant planned improvements."

22. Dychwelydd y Pwyllgor at fater Rheoli Grantiau ym mis Mehefin 2014 ar ôl i Lywodraeth Gymru gyhoeddi *Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau*, sef datblygiad newydd a ysgogwyd gan ymchwiliad y Pwyllgor, ochr yn ochr â'n hystyriaeth o gyfres o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y pwnc hwn gan gynnwys *Arian Cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain - y Bala*, *Arian Cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon* a *Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yr Undeb Ewropeaidd*. Yn gyffredinol, daeth gwaith y Pwyllgor i'r casgliad bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud o ran ailwampio'r system o reoli grantiau a chroesawyd y ffaith i Lywodraeth Cymru gyhoeddi *Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau,* a aeth i'r afael â llawer o'r materion a nodwyd yn ein hargymhellion.

## Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen

### *Cefndir*

23. Cyhoeddwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru *ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen* ym mis Mehefin 2012. Daeth yr

adroddiad i'r casgliad bod penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn 2007 i brynu hen Westy River Lodge, am £1.6 miliwn ac i ymrwymo i gytundeb prydles â sefydliad o'r enw Powys Fadog yn 2009 yn ddiffygiol ac nad oeddent yn rhoi gwerth da am arian. Yng ngoleuni hyn, a'r tebygolrwydd cynyddol na fyddai Powys Fadog yn gallu cyflawni amodau'r cytundeb prydles, roedd yr adroddiad o'r farn bod penderfyniad Llywodraeth Cymru yn 2010 i werthuso opsiynau i waredu'r eiddo yn ddoeth ac yn angenrheidiol.

24. Canfu'r adroddiad hefyd mai araf fu ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon allanol a mewnol ynglŷn ag uniondeb a gwerth am arian ei phenderfyniadau cynharach.

25. Nid oedd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys unrhyw argymhellion i Lywodraeth Cymru. Yng ngoleuni hyn a phryderon y Pwyllgor ynglŷn â'i ganfyddiadau, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r materion a godwyd yn yr adroddiad, gan roi sylw penodol i weld a oedd gwersi i'w dysgu.

### *Canfyddiadau Allweddol*

26. Canfu ymchwiliad y Pwyllgor i ddiffygion yn systemau a phrosesau Llywodraeth Cymru arwain at wastraffu dros filiwn o bunnoedd o arian cyhoeddus. Canfu'r ymchwiliad mai prin bod Gweinidogion olynol yn ymwybodol o'r cynllun i brynu Gwesty River Lodge yn Llangollen am £1.6 miliwn a'i brydlesu i sefydliad menter gymdeithasol er mwyn creu canolfan hyfforddiant crefft ymladd ac encilfa ysbrydol.

27. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod y cynnig i brynu'r adeiladau gwag yn 2007 wedi'i wneud cyn i'r broses brisio gael ei chwblhau ac nad oedd y pris a dalwyd yn ddefnydd da o arian cyhoeddus.

28. Nododd yr ymchwiliad hefyd i'r penderfyniad i brynu'r gwesty gael ei wneud, yn rhannol, er mwyn defnyddio arian a oedd yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bod papurau briffio a chyfathrebu rhwng Gweinidogion olynol Llywodraeth Cymru wed bod yn annigonol.

29. Roedd y diffygion yn systemau a phrosesau'r gwasanaeth sifil a amlygwyd gan yr ymchwiliad, a'r rhai a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hymchwiliad ehangach i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli grantiau yn achos pryder penodol i'r Pwyllgor.

30. Gwnaeth y Pwyllgor 21 o argymhellion yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei phrosesau er mwyn lleihau'r risg y bydd brys i wario arian cyn diwedd blwyddyn ariannol yn amharu ar ymdrechion i sicrhau gwerth am arian;
- bod gweision sifil Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Gweinidogion newydd yn cael eu briffio'n llawn ar bob agwedd ar eu portffolios newydd, gan gynnwys gohebiaeth sy'n mynd rhagddi a gohebiaeth sydd eto i'w chwblhau;
- bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei systemau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth Gweinidogion, er mwyn sicrhau, pan fydd pryderon ynglŷn â gwrthdaro buddiannau (neu ymddygiad swyddog), nad y person y mae cwyn yn ei gylch na'i reolwr llinell sy'n ymateb i'r pryderon hynny.

### *Prif Ganlyniadau*

31. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o'r 21 o argymhellion gan y Pwyllgor ac, yn ein barn ni, roedd yr ymateb yn foddhaol. Nododd y Pwyllgor fwriad Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru ac yn egluro ei chynnydd o ran rhoi argymhellion y Pwyllgor ar waith.

## Argyfyngau Sifil yng Nghymru

### *Cefndir*

32. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar *Argyfyngau Sifil yng Nghymru* ym mis Rhagfyr 2012. Canfu'r adroddiad fod trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil posibl wedi gweithio'n foddhaol yng Nghymru, hyd yn hyn, pan fo'u hangen. Nododd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ymateb effeithiol a medrus gan y bartneriaeth o sefydliadau sy'n ymateb i wasanaethau mawr.

33. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad ar sail y materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â rôl Llywodraeth Cymru a rôl Llywodraeth y DU o ran cefnogi'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r gwaith o reoli argyfyngau sifil posibl, trosolwg cyffredinol o'r heriau ariannol a wynebir gan sefydliadau sy'n rheoli argyfyngau sifil, a'r heriau penodol a wynebir gan bob sefydliad wrth ddatblygu a rhoi cynlluniau brys ar unwaith.

*Canfyddiadau Allweddol*

34. Canfu ymchwiliad y Pwyllgor fod lle i wella'r ffordd y mae sefydliadau yn ymateb i argyfyngau sifil megis llifogydd mawr a thywydd eithafol. Argymhellwyd bod angen craffu'n fanylach ar y ffordd y mae sefydliadau megis yr heddlu, gwasanaethau tân, gwasanaethau meddygol ac awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil ac yn ymdopi â hwy a pha wersi y gellir eu dysgu.

35. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad hefyd y bydd cynnig i newid i fodel rhanbarthol o ymateb i argyfyngau o'r fath yn gofyn am 'newid mawr' o ran cydgysylltu a chydweithredu rhwng pob corff perthnasol.

36. Wrth nodi awydd Llywodraeth Cymru i'w rôl yn y gwaith o reoli'r ymateb i argyfyngau sifil gael ei rhoi ar sail statudol, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru egluro pa adnoddau y byddai eu hangen er mwyn ysgwyddo cyfrifoldebau o'r fath cyn i bwerau gael eu trosglwyddo. Ar hyn o bryd, Swyddfa'r Cabinet, un o adrannau Llywodraeth y DU, sydd â'r pwerau hyn, gyda Llywodraeth Cymru yn y canol i bob diben. Clywodd y Pwyllgor nad felly y mae yn yr Alban a Gogledd Iwerddon lle mae cyfrifoldebau wedi'u datganoli.

37. Roedd adroddiad terfynol y Pwyllgor yn cynnwys 14 o argymhellion gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o'r adnoddau hynny sydd eu hangen i gyflawni dyletswyddau o'r fath cyn i'r swyddogaethau gael eu trosglwyddo;
- y dylai symud at y pedwar model rhanbarthol gwahanol ei gwneud yn ofynnol i bob rhan o'r gymuned gydnerth oresgyn nifer o heriau, yn cynnwys rhwystrau diwylliannol;
- bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn sicrhau bod holl ymatebwyr Categori Un yn gyson yn y modd y maent yn rhoi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith a bod eu perfformiad yn cael ei fonitro a'i graffu arno'n rheolaidd.

*Prif Ganlyniadau*

38. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 10 o 14 o argymhellion y Pwyllgor a derbyniodd y pedwar arall yn rhannol. Roedd nifer o ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn aneglur ac ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ragor o fanylion am y materion hyn. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar yr ohebiaeth bellach ato.

39. Fodd bynnag, wrth edrych ymlaen, canfu'r ymchwiliad y gall awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n ymateb wynebu sefyllfa lle mae eu dyraniadau cyllidebol ar gyfer gwaith cynllunio brys sifil yn cael eu gwario'n llawn os bydd digwyddiad mawr. At hynny, er mai costau staff oedd y prif wariant, gallent fynd i gostau heb eu cynllunio, ond rhai rhagweladwy, pan fo argyfwng. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai rhai awdurdodau lleol yn fwy agored i risgiau penodol, ac y dylai cyllidebau cynllunio ar gyfer argyfyngau gael eu cysoni ag asesiad cywir o risg.

## Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd

### *Cefndir*

40. Cyflwynwyd y contract cyntaf i feddygon ymgynghorol yn y DU yn 1948 ac arhosodd yn ddigyfnewid i raddau helaeth nes i gyd-drafodaethau contract newydd ddechrau yn 2000. Yn sgil amrywiol gyd-drafodaethau, daeth contract i Gymru yn gyfrwymol ar bob meddyg ymgynghorol yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2003.

41. Cyhoeddwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru *Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd* ym mis Chwefror 2013. Canfu'r adroddiad fod prosesau recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol wedi gwella ers i'r contract diwygiedig gael ei gyflwyno yn 2003, wrth i nifer y meddygon ymgynghorol llawn amser gynyddu 37 y cant rhwng 2004 a 2011. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad y canlynol hefyd:

- bod rhai meddygon ymgynghorol yn dal i weithio oriau hir iawn, gydag un o bob chwech yn gweithio o leiaf 46.5 awr ac yn aml yn mynd y tu hwnt i derfyn 48 awr Cyfarwyddeb Oriau Gwaith yr UE;
- nad oedd y contract diwygiedig wedi ysgogi proses o foderneiddio'r gwasanaeth yn y ffordd a ragwelwyd yn wreiddiol.

42. Hefyd, nododd yr adroddiad fod llai na hanner y meddygon ymgynghorol a ymatebodd i arolwg yn teimlo bod y contract diwygiedig a gwaith cynllunio swyddi wedi arwain at arfer clinigol gwell a bod llai byth o'r farn ei fod wedi gwella gofal cleifion a dulliau gweithio meddygon ymgynghorol.

43. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n werthfawr iawn cynnal ymchwiliad byr i faterion a godwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### *Canfyddiadau Allweddol*

44. Canfu'r Pwyllgor nad oedd y broses o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol y GIG yng Nghymru ym marn rhai clinigwyr a sefydliadau yn y GIG yn ddim byd mwy nag ymarfer ticio blychau.

45. Canfu'r ymchwiliad, er bod prosesau recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol wedi gwella ers i'r contract gael ei gyflwyno yn 2003, nad oedd llawer o fanteision allweddol eraill a fwriadwyd wedi'u gwireddu.

46. Hefyd, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cyfran sylweddol o oriau gwaith meddygon ymgynghorol bob wythnos yn mynd y tu hwnt i Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yr UE. Canfuwyd hefyd nad oedd llawer o gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a oedd, ym marn y Pwyllgor, yn cyfyngu ar allu Byrddau Iechyd i drefnu a chynllunio eu hadnoddau'n effeithiol, gan wanhau eu gallu i gynllunio ar gyfer gofynion yn y dyfodol.

47. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y gadawyd i Fyrddau Iechyd unigol sicrhau manteision y contract - ai peidio - ar eu pennau eu hunain i raddau helaeth, heb fawr ddim mewnbwn gan Lywodraeth Cymru. Roeddem yn credu ei bod yn hollbwysig bod sefydliadau'r GIG yn atgyfnerthu eu trefniadau ar gyfer gweithio gyda meddygon ymgynghorol a'u bod yn ymgymryd â gwaith cynllunio swyddi yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau yr oedd eu hangen ar eu poblogaethau lleol a nodi a lliniaru risgiau a oedd yn deillio o lwythi gwaith clinigol gormodol.

48. Gwnaeth y Pwyllgor naw argymhelliad yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen o'i chamau gweithredu er mwyn rhoi arweiniad strategol ar drefniadau cynllunio swyddi yng Nghymru, gan gynnwys datblygu canllawiau i Gymru gyfan a'r ffordd y mae'n bwriadu dwyn Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif am roi'r canllawiau ar waith;
- bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG er mwyn datblygu canllawiau cenedlaethol ar oriau gwaith

meddygon ymgynghorol a'r camau gweithredu y gall Cyrff Iechyd eu cymryd i leihau'r angen am oriau waith gormodol;

- bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf bob blwyddyn i'r Pwyllgor ynglŷn â'i gwaith gyda byrddau iechyd a'r ddeoniaeth i ddatblygu a gweithredu strategaethau penodol ar gyfer recriwtio meddygon ymgynghorol arbenigol er mwyn mynd i'r afael â phrinder staff yn y gweithlu a phrinder arbenigwyr.

***Prif Ganlyniadau***

49. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o wyth argymhelliad y Pwyllgor a oedd yn effeithio'n uniongyrchol arni ac roedd yr ymateb yn foddhaol, yn ein barn ni.

**Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori**

***Cefndir***

50. Cyhoeddwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori* ym mis Chwefror 2013. Canfu'r adroddiad, er bod cyrff cyhoeddus wedi lleihau eu gwariant ar ymgynghorwyr, na allent ddangos gwerth da am arian o ran cynllunio, caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Roedd y graddau y gwnaeth cyrff cyhoeddus gyrraedd safonau arfer da a dderbynnir yn gyffredinol ar gamau caffael a rheoli ymgynghorwyr gwahanol hefyd yn amrywio'n sylweddol.

51. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol cynnal ymchwiliad byr i'r materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

***Canfyddiadau Allweddol***

52. Nododd canfyddiadau'r Pwyllgor fod angen mwy o dystiolaeth o arbedion a gwerth am arian yn sgil cyflwyno Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol newydd Llywodraeth Cymru.

53. Yn ystod ei ymchwiliad, canfu'r Pwyllgor hefyd fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi lleihau eu gwariant ar ymgynghorwyr allanol. Dangosodd ffigurau a gyflwynwyd fel tystiolaeth i'r Pwyllgor fod gostyngiad sylweddol yn y sector cyhoeddus o £173 miliwn yn 2007-08 i £133 miliwn yn 2010-11.

54. Gwnaeth Llywodraeth Cymru leihau ei gwariant ar ymgynghorwyr o £52 miliwn i £42 miliwn dros yr un cyfnod. Croesawyd y

gostyngiadau hyn gan y Pwyllgor ond nododd iddynt gael eu sicrhau o ganlyniad i gyfuno cyllid cyhoeddus yn hytrach na thrwy sicrhau gwell gwerth am arian. Canfu'r Pwyllgor hefyd fod diffyg tystiolaeth gan lawer o gyrff cyhoeddus i ddangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian yn eu trefniadau ar gyfer cynllunio, caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Roedd methiannau o'r fath, yn enwedig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol tynn i'r sector cyhoeddus yn achos pryder i'r Pwyllgor.

55. Gwnaeth y Pwyllgor 12 o argymhellion yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar effaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i wella arferion caffael a gwneud arbedion caffael, gan gynnwys dadansoddi ei effaith o ran herio a rheoli'r galw am wasanaethau ymgynghori yn y Sector Cyhoeddus;
- bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darpar ddefnyddwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac yn cyflwyno trefniadau monitro cadarn er mwyn sicrhau bod yr arbedion posibl a ddisgwylir gan y Gwasanaeth yn cael eu cyflawni;
- bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau mai un o amcanion penodol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yw sicrhau'r buddiannau mwyaf o wariant cyhoeddus yn y sector preifat yng Nghymru, fel rhan o'i amcanion ehangach i sicrhau'r gwerth mwyaf am arian cyhoeddus.

***Prif Ganlyniadau***

56. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o'r 12 o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

57. Fodd bynnag, ymddangosai fod y gwaith o weithredu argymhellion y Pwyllgor yn dibynnu'n fawr ar sefydlu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, gyda'i gyfarwyddwr yn cael y cyfrifoldeb am gyflawni saith o'r 12 o argymhellion.

58. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf ym mis Ebrill 2015, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad o gaffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn 2014-15. Bydd y Pwyllgor yn ailystyried y mater hwn ar ôl i adroddiad

yr Archwilydd Cyffredinol ac adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gael eu cyhoeddi a bydd yn monitro cynnydd bryd hynny.

## Bwrdd Draenio Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg

### *Cefndir*

59. Cyhoeddwyd Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 gan yr Archwilydd Penodedig: *Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg* ym mis Hydref 2012. Fe'i cyhoeddwyd er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

60. Fel arfer, nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cymryd tystiolaeth ynglŷn ag adroddiadau er budd y cyhoedd ar lywodraethu cyrff lleol. Mae'n fwy arferol i ymchwiliadau'r Pwyllgor fod yn seiliedig ar adroddiadau a baratowyd o dan bwerau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roedd y Pwyllgor o'r farn bod i'r adroddiad hwn oblygiadau amlwg i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru, ac nid dim ond i'r Bwrdd Draenio ei hun yn unig.

61. Canolbwyntiodd ymchwiliad y Pwyllgor ar y canlynol:

- camau gweithredu Llywodraeth Cymru i gael sicrwydd bod fframweithiau gwneud penderfyniadau cymeradwy i Fyrddau Draenio yng Nghymru;
- rôl Llywodraeth Cymru i weithio gyda Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg er mwyn cyflawni'r gwelliannau yr oedd eu hangen;
- dyfodol Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru;
- rôl gweision sifil a pham na chodwyd pryderon yn gynt;
- presenoldeb awdurdodau lleol ar fyrddau a chyrff cyhoeddus;
- methodoleg Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer archwilio cyrff cyhoeddus bach, yn enwedig ei dull o archwilio cyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg.

### *Canfyddiadau Allweddol*

62. Canfu ymchwiliad y Pwyllgor fod cydberthnasau wedi'u chwalu, anghydfodau staffio a ffraeo o fewn Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg o ganlyniad i lywodraethu ac atebolrwydd gwan.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio arferion gwael y Bwrdd fel esiampl y dylai sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru ochel rhagddi.

63. Cydnabu'r Pwyllgor, ers yr archwiliad o gyfrifon yn 2010-11, fod newidiadau sylweddol wedi bod o ran personél a gweithrediadau'r Bwrdd ac nad oedd ei ganfyddiadau yn adlewyrchu gwaith y tîm rheoli presennol.

64. Ymhlith yr 16 o argymhellion yn yr adroddiad roedd y canlynol:

- bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau clir ynglŷn ag atebolrwydd Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru;
- bod Llywodraeth Cymru yn adolygu trefniadau llywodraethu Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a bod system o fonitro trefniadau llywodraethu yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn dryloyw, yn gyson ag arfer gorau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a bod ganddynt ddogfennau a chynlluniau priodol ar waith;
- bod Llywodraeth Cymru yn ailgyhoeddi canllawiau ar lywodraethu, gan nodi'r problemau a welwyd ym Mwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg fel enghraifft o'r hyn a all fynd o'i le;
- bod Llywodraeth Cymru yn nodi fframwaith clir ar gyfer cydweithio rhwng Byrddau Draenio Mewnol, a sefydliadau eraill sy'n atebol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn rheoli perygl llifogydd. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys manylion rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad.

### *Prif Ganlyniadau*

65. O'r 13 o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru derbyniwyd naw, derbyniwyd dau mewn egwyddor a derbyniwyd dau'n rhannol.

66. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar yr ymateb ond nododd fwriad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo swyddogaethau, asedau a staff y tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru i Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai hyn yn darparu trefniadau

llywodraethu cwbl newydd ar gyfer y swyddogaethau hyn, ar safon sy'n gyson â'r hyn a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus.

67. Nododd y Pwyllgor y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r broses drosglwyddo hon a bydd yn parhau i'w monitro.

## Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG

### *Cefndir*

68. Cyhoeddwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru *Gweithredu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG* ym mis Mehefin 2013. Er i'r adroddiad ganfod bod y fframwaith wedi sicrhau rhai manteision, nododd hefyd fod angen gwneud rhagor er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phobl mewn ffordd deg a chyson.

69. Roedd canfyddiadau adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cwmpasu dwy thema:

- gellid gwella'r Fframwaith mewn nifer o feysydd, a monitro ei effaith yn fanylach: nid yw wedi cael ei weithredu'n llawn ledled Cymru; ac nid oedd sicrwydd llawn bod penderfyniadau'n deg ac yn gyson o fewn a rhwng Byrddau Iechyd.
- roedd risg sylweddol na fydd y prosiect cenedlaethol i ymdrin â hawliadau ôl-weithredol yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni a bod ôl-groniadau newydd o hawliadau ôl-weithredol wedi datblygu mewn byrddau iechyd.

### *Canfyddiadau Allweddol*

70. Canfu'r Pwyllgor fod y *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG*, sef y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru i wasanaethau iechyd eu dilyn, yn cael eu cymhwyso'n anghyson a bod diffyg dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd ynglŷn â phwy sy'n gymwys i gael arian a sut y gallant wneud cais.

71. Yr hyn a fu'n achos pryder i'r Pwyllgor oedd effaith oedi cyn gwneud penderfyniadau ar gleifion a'u teuluoedd mewn perthynas â hawliadau ar gyfer gofal iechyd parhaus, a allai olygu bod rhai yn wynebu caledi ariannol tra bod hawliadau'n cael eu setlo.

72. Canfu'r ymchwiliad mai rhan o'r rheswm dros hyn oedd prinder staff a gyflogwyd i brosesu hawliadau, a oedd wedi creu ôl-groniad.

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mai ei nod oedd cael gwared ar yr ôl-groniad o fewn dwy flynedd.

73. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yr hoffai weld hawliadau yn cael eu prosesu yn unol ag amgylchiadau unigolion a'u teuluoedd, yn hytrach nag ar sail system y cyntaf i'r felin sydd ar waith ar hyn o bryd.

74. Fodd bynnag, cydnabu'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ers i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru gael ei gyhoeddi, ond roedd am gael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y byddai Gweinidogion yn gwella amseroldeb penderfyniadau, gwella cysondeb, a sicrhau system deg lle y gall pobl gael gafael ar y gofal sydd ei angen arnynt.

75. Gwnaeth y Pwyllgor 10 argymhelliad yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn ystyried blaenoriaethu hawliadau yn unol ag amgylchiadau unigolion a'u teuluoedd;
- bod angen dull gweithredu rhagweithiol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sydd ei hangen, gan eu galluogi i herio penderfyniadau ar gymhwyster. Dylai gwybodaeth o'r fath fod yn glir ac yn syml;
- bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am gynnydd interim o ran clirio hawliadau ym mis Mawrth 2014 a hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mis Medi 2014 yn dilyn terfyn amser mis Mehefin 2014.

***Prif Ganlyniadau***

76. Derbyniodd Llywodraeth Cymru saith o'r 10 argymhelliad a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor a derbyniodd y tri arall yn rhannol.

77. Cytunodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno adroddiadau ar y cynnydd a oedd yn cael ei wneud i glirio hawliadau ôl-weithredol i'r Pwyllgor, ym mis Mawrth a mis Medi 2014. Ystyriodd y Pwyllgor y cyntaf o'r adroddiadau hyn ym mis Ebrill 2014 a bydd yn edrych ar y mater hwn eto yn ystod tymor yr hydref ar ôl derbyn adroddiad diweddaru mis Medi ochr yn ochr â fersiwn diwygiedig Llywodraeth Cymru o'i *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG* a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn cyflwyno memorandwm i'r Pwyllgor ynglŷn â'r

cynnydd a wnaed o ran lleihau diffyg hawliadau a lansio'r fframwaith diwygiedig bryd hynny.

78. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y risgiau o hyd sy'n gysylltiedig ag ymdrin â hawliadau ôl-weithredol. Er i ni groesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi adnoddau ychwanegol i'r prosiect cenedlaethol er mwyn clirio hawliadau ac atgyfnerthu'r gwaith o fonitro cynnydd, roeddem yn pryderu o hyd ynglŷn â'r gyfradd clirio achosion a'r risgiau i recriwtio a chadw staff a ddisgrifiwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Fel y nodwyd yn y paragraff uchod mae hwn yn faes risg y byddwn yn parhau i'w fonitro.

## Trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### *Cefndir*

79. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru adolygiad ar y cyd, *Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013.

80. Canfu'r adroddiad ar y cyd y canlynol:

- nid oedd trefniadau na gweithdrefnau llywodraethu'r Bwrdd yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r bwlch rhwng y ward a'r Bwrdd;
- nid oedd trefniadau llywodraethu arferol o fewn y Bwrdd Iechyd wedi rhoi digon o sylw i reoli heintiau;
- peryglwyd effeithiolrwydd y Bwrdd yn sylweddol am fod y berthynas waith rhwng rhai uwch arweinwyr yn y sefydliad wedi chwalu;
- nid oedd gan y Bwrdd yn ei gyfanrwydd y gallu na'r adnoddau i gynnig lefelau priodol o graffu mewn perthynas â darparu gwasanaethau.

81. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i'r problemau llywodraethu yn y Bwrdd a godwyd yn yr adroddiad ar y cyd a'r ffordd roedd y Bwrdd yn ymdrin â hwy.

## *Canfyddiadau Allweddol*

82. Ystyriodd yr ymchwiliad y trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chanfu'r dystiolaeth fod blaenoriaethau gwahanol ymhlith cyfarwyddwyr y bwrdd iechyd wedi arwain at wrthdaro, na allai cyn-Gadeirydd y Bwrdd ei ddatrys.

83. Clywodd y Pwyllgor hefyd feirniadaeth o Brif Weithredwr y Bwrdd a oedd ar fin gadael. Yn ystod y dystiolaeth, cyfaddefodd fod ganddi bryderon ynglŷn â phroblemau llywodraethu ond nad oedd wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y pryderon hynny.

84. Daeth ymchwiliad y Pwyllgor i'r casgliad bod angen i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle i sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn dysgu o'r hyn a ddigwyddodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel na fyddai methiannau tebyg yn digwydd mewn mannau eraill a bod risgiau i gleifion yn cael eu lleihau i'r eithaf.

85. Gwnaeth y Pwyllgor 21 o argymhellion yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn adolygu a, lle y bo angen, atgyfnerthu'r trefniadau rheoli perfformiad a'r broses arfarnu ar gyfer prif weithredwyr a chadeiryddion sefydliadau'r GIG er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn, yn cael eu deall yn glir ac yn cael eu rhoi ar waith;
- bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad brys o'r hyfforddiant sydd ar gael i aelodau bwrdd ym mhob un o gyrff GIG Cymru. Dylai canlyniad yr adolygiad hwn lywio'r broses o ddatblygu a darparu rhaglen hyfforddiant genedlaethol i aelodau bwrdd, y dylai cymryd rhan ynddi fod yn un o amodau bod yn aelod o fwrdd;
- bod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio i'r Byrddau Iechyd y dylent, lle y bo modd, osgoi defnyddio atebion anghynaliadwy i bwysau ariannol, megis canslo neu ohirio llawdriniaethau, sydd ond yn gohirio costau i'r cyfnod cyfrifyddu nesaf;
- bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn achosi cyn lleied o anghyfleuster a gofid meddwl â phosibl i gleifion a'u teuluoedd drwy ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd gyfathrebu â chleifion cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud penderfyniad i ganslo neu ohirio llawdriniaethau dewisol;

- bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei phrosesau ar gyfer dilysu ansawdd a diogelwch, a data hollbwysig eraill gan sefydliadau'r GIG. Roedd yn hollbwysig bod data o'r fath yn cael eu cofnodi'n gywir er mwyn i gamau gweithredu ystyrlon gael eu cymryd.

***Canlyniadau***

86. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o argymhellion y Pwyllgor a gyfeiriwyd ati, a oedd yn cynnwys camau gweithredu uniongyrchol er mwyn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod prosesau adolygu perfformiad yn gadarn ac yn cael eu deall yn glir;
- gweithio gydag Academi Cymru a Chadeiryddion sefydliadau'r GIG i ddatblygu fframwaith ar gyfer arfarniadau a rhoi cynllun mentora gan gymheiriaid i aelodau annibynnol ar waith. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau y caiff Cadeiryddion eu dwyn i gyfrif am eu rhan yn y broses o sicrhau bod arfarniadau o aelodau annibynnol yn gadarn ac yn ystyried anghenion hyfforddiant a datblygu;
- sicrhau bod data ar gael ar sgoriau RAMI ym mhob safle ysbyty yng Nghymru ynghyd â naratif cyd-destunol drwy wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol. Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu nifer o fesurau ynglŷn â marwolaethau sy'n adlewyrchu GIG Cymru yn well ac yn sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru;
- ail-bwysleisio'r angen i gyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd am y rheswm pam bod angen gohirio llawdriniaethau;
- ail-bwysleisio'r angen i BILlau achosi cyn lleied o anghyfleuster a gofid meddwl â phosibl i gleifion a'u teuluoedd drwy sicrhau eu bod yn cyfathrebu mewn modd mwy effeithiol ac amserol ynglŷn â llawdriniaethau dewisol sy'n cael eu canslo neu eu gohirio;
- datblygu trefniadau cliriach i ddwysáu ac ymyrryd pan fydd problemau yn codi yng nghyrff y GIG yng Nghymru. Croesawodd y Pwyllgor y protocol newydd ar *Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Mawrth 2014;
- cyhoeddi Canllaw Llywodraethu Da i Fyrddau GIG Cymru *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well* a nododd fframwaith ar gyfer dysgu a datblygu Byrddau.

87. Nododd y Pwyllgor i ymateb Llywodraeth Cymru hefyd dynnu sylw at y ffaith bod Byrddau Iechyd eisoes yn cymryd camau i osgoi defnyddio atebion anghynaliadwy i bwysau ariannol. Nododd yr ymateb hefyd fod Byrddau Iechyd yn penderfynu gohirio llawdriniaethau am amryw resymau nad ydynt yn gysylltiedig â phwysau ariannol. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i ymdopi â galw ychwanegol am welyau llawdriniaeth o ganlyniad i dderbyniadau brys, absenoldeb annisgwyl aelodau allweddol o staff a'r angen i gymryd camau i reoli heintiau.

88. Fodd bynnag, bydd y risgiau i brosesau rheoli heintiau a diogelwch cleifion digonol sy'n deillio o bwysau ariannol yn y GIG yn parhau i fod yn achos pryder i'r Pwyllgor.

89. Edrychodd y Pwyllgor ar y mater hwn eto ym mis Gorffennaf 2014 a chroesawodd y cynnydd a wnaed hyd hynny fel y'i hamlinellwyd gan Brif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Hoffai'r Pwyllgor drafod y materion llywodraethu ehangach a godwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda Llywodraeth Cymru ac efallai y bydd yn dychwelyd at y mater unwaith eto ar ôl i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd yn 2015.

**Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt**

***Cefndir***

90. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad *Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt* ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried sefyllfa ariannol GIG Cymru yn ystod 2012-13 ac yn dilyn adroddiad blaenorol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Cyllid Iechyd*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ddiwedd 2012, ac y cyflwynwyd adroddiad arno ym mis Chwefror 2013.

91. Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi asesiad manwl o sefyllfa ariannol cyrff y GIG yn 2012-13. Ystyriodd berfformiad o ran darparu gwasanaethau, yn enwedig y meysydd hynny y nodwyd eu bod yn flaenoriaeth gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried heriau ariannol a heriau i wasanaethau yn y dyfodol i'r GIG yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

92. Cafodd y Pwyllgor ei friffio ar ganfyddiadau'r adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2013. Yn dilyn y sesiwn hon, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad er mwyn ystyried:

- Ansawdd cynlluniau tair blynedd o risg o orwario ym Mlwyddyn 1;
- Anawsterau i sicrhau arbedion;
- Dirywiad perfformiad mewn rhai meysydd gwasanaeth;
- Diwygio gwasanaethau a'r cysylltiad â lleihau costau;
- Cynnydd yn nifer yr hawliadau oherwydd esgeuluster;
- Sut y caiff blaenoriaethau Haen 1 eu pennu

***Canfyddiadau Allweddol***

93. Daeth ymchwiliad y Pwyllgor i'r casgliad bod cyllid GIG Cymru yn dal i fod yn her enfawr. Er gwaethaf ymdrechion sylweddol gan y rhai sy'n gweithio gyda Gwasanaeth Iechyd Cymru i wneud yr arbedion sydd eu hangen ar unwaith i fantoli'r gyllideb, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod cryn dipyn i'w wneud o hyd i sicrhau bod y camau a gymeradwywyd yn gynaliadwy ac nad ydynt yn achosi problemau mwy o faint yn y tymor hwy.

94. Croesawodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd gan y Llywodraeth i gyflwyno system fwy hyblyg ar gyfer gwaith cynllunio ariannol i GIG Cymru; cafodd hyn ei argymell hefyd yn ein hadroddiad *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*, a gyhoeddwyd yn 2012. Fodd bynnag, drwy gydol yr ymchwiliad hwn, daeth yn amlwg i ni fod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach i sicrhau bod y system y mae'n bwriadu ei chyflwyno yn addas at y diben.

95. Hefyd, croesawodd y Pwyllgor Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, a newidiodd ddyletswyddau ariannol cyfredol Byrddau Iechyd o ofyniad statudol blynyddol ynglŷn â gwariant i drefn sy'n ystyried y ddyletswydd ariannol i reoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod o dair blynedd. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr effaith y mae hyn wedi'i chael ers ei chyflwyno wrth ystyried cyllid iechyd yn y dyfodol.

96. Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â chyllid iechyd, yn enwedig o ran

trefniadau mwy hyblyg, yr oedd y Pwyllgor wedi galw amdanynt mewn adroddiadau blaenorol.

97. Fodd bynnag, roedd gan y Pwyllgor bryderon mawr ynglŷn â'r rheolaethau sydd ar waith i helpu Byrddau Iechyd i gynllunio'n fwy hyblyg, a daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod angen atebolrwydd llymach ar uwch reolwyr a mwy o dryloywder o ran gwaith cynllunio ariannol.

98. Daethom i'r casgliad nad oedd ariannu byrddau iechyd nas cynlluniwyd o fewn blwyddyn yn gynaliadwy.

99. Gwnaeth y Pwyllgor 12 o argymhellion yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi sail resymegol glir dros ddyraniadau ariannol o adnoddau ychwanegol o fewn blwyddyn i gyrff y GIG. Byddai hyn yn cynnig mwy o dryloywder ac eglurder mewn cyllidebau ac yn helpu i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu dyrannu'n briodol ac yn rhoi gwerth am arian.
- bod Llywodraeth Cymru yn dwyn uwch reolwyr i gyfrif yn fwy trwyadl, er mwyn sicrhau tryloywder mewn penderfyniadau ariannol;
- o ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith cynllunio ariannol dros dair blynedd, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd wneud y canlynol:
  - paratoi cynllun wedi'i fantoli'n llawn dros dair blynedd ynghyd â manylion ategol;
  - ymgymryd â gwaith cynllunio ariannol ar y cyd yn dangos sut y bydd cyllidebau yn cael eu mantoli drwy'r GIG cyfan bob blwyddyn;
  - paratoi cynlluniau brys manwl yn nodi sut y bydd Byrddau Iechyd yn ymateb os na fydd arbedion arfaethedig o fuddsoddiad a wneir ymlaen llaw yn cael eu sicrhau a/neu os bydd pwysau costau ychwanegol.

### *Prif Ganlyniadau*

100. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o argymhellion y Pwyllgor yn llawn a chroesawodd y Pwyllgor y ffaith i lawer o'r ymateb nodi bod

camau'n cael eu cymryd eisoes mewn rhai meysydd, megis cymeradwyo a gweithredu cynlluniau tair blynedd cyrff y GIG.

101. Croesawodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno system fwy hyblyg ar gyfer gwaith cynllunio ariannol i GIG Cymru. Fodd bynnag, bydd ansawdd y gwaith cynllunio ariannol tair blynedd yn hollbwysig a bydd angen i'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gorwario ym mlwyddyn un gael eu rheoli'n ofalus a'u hosgoi. Mae hwn yn faes risg y bydd y Pwyllgor yn parhau i'w oruchwylio.

102. Er gwaethaf y pryderon hyn, mae'n bwysig peidio â thanseilio'r newid sylweddol a welwyd drwy symud tuag at waith cynllunio ariannol tair blynedd. O ran effaith gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, rydym yn cydnabod y dylanwad a gawsom o ran hyrwyddo'r newid hwn a chyfraniadau ein gwaith tuag at ffurfio a gweithredu Deddf Cyllid GIG (Cymru). Hoffem nodi ein hymdrechion, dros sawl blwyddyn, i argymell nad oedd y drefn flaenorol yn addas at y diben mwyach.

103. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwneud gwaith pellach i ystyried cyllid a pherfformiad iechyd yn ystod 2013-14 a'i fod yn bwriadu cyhoeddi ei ganfyddiadau ar ddechrau hydref 2014. Bydd y gwaith hwnnw yn ystyried llawer o'r materion a nodwyd yn argymhellion ein hadroddiadau a byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn bryd hynny.

**Edrych Ymlaen**

104. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu symud ymlaen gyda'r ffyrdd newydd o weithio y cytunwyd arnynt ar ddechrau 2014. Byddwn yn cyhoeddi dau adroddiad a fydd yn deillio o ymchwiliadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ei hun, a byddwn yn ymgymryd â gwaith tebyg pellach, sy'n deillio o bryderon y cyhoedd ynglŷn â gwerth am arian.

105. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ymgymryd â'i gyfrifoldebau pwysig i ystyried adroddiadau a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar agweddau ar werth am arian.

106. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno i ymgymryd â darn o waith er mwyn ystyried cyfrifon cyfun Llywodraeth Cymru a rhai cyrff annibynnol a ariennir drwy grant bloc Cymru. Mae hwn yn ddarn

pwysig o waith craffu er mwyn i'r Pwyllgor ystyried sut y caiff arian cyhoeddus ei wario ac a oes unrhyw bryderon mawr

# Atodiad

| **Teitl yr adroddiad** | **Dyddiad cyhoeddi** |
|---|---|
| Rheoli grantiau yng Nghymru | Mehefin 2013 |
| Proses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen | Mehefin 2013 |
| Argyfyngau sifil yng Nghymru | Gorffennaf 2013 |
| Meddygon ymgynghorol yng Nghymru | Medi 2013 |
| Caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori | Medi 2013 |
| Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg | Hydref 2013 |
| Gweithredu’r fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG | Rhagfyr 2013 |
| Trefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Rhagfyr 2013 |
| Cyllid iechyd 2012-13 a thu hwnt | Mawrth 2014 |